

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

### 2002 Rhif (Cy.)

### TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Diwygio  
Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad  
2002 (Cychwyn Rhif 1, Arbedion a  
Darpariaethau Trosiannol) (Cymru)  
2002

#### NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r Gorchymyn ar 1 Ionawr 2003 yn dwyn i rym  
ddarpariaethau amrywiol o Ddeddf Diwygio  
Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 mewn  
perthynas â Chymru, yn ddarostyngedig i'r  
darpariaethau trosiannol ac arbedion yn Atodlen 2.

Mae'r darpariaethau yn darparu ar gyfer newidiadau  
i'r canlynol:

- (a) rhyddfreiniad torfol gan denantiaid  
fflatiau: adrannau 114 i 120, 125, 127 i  
128;
- (b) caffael prydlesi newydd i denantiaid  
fflatiau: adrannau 129 i 136;
- (c) rhyddfreiniad ac estyn prydles gan  
denantiaid tai: adrannau 137 i 147;
- (ch) ceisiadau i dribiwnlys prisio lesddaliad  
i benodi rheolwr ar floc o fflatiau:  
adrannau 160 a 161; a
- (d) y seiliau dros wneud cais i amrywio  
prydles: adran 162.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dwyn i rym ddiwygiadau  
canlyniadol a diddymiadau mewn Deddfau eraill.

## 2002 Rhif (Cy.)

### TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Diwygio  
Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad  
2002 (Cychwyn Rhif 1, Arbedion a  
Darpariaethau Trosiannol) (Cymru)  
2002

*Wedi'i wneud*

*Tachwedd 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 181 o Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002(1) a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

#### Enwi, dehongli a chymhwysedd

1. —(1) Enw'r Gorchymyn hwn Gorchymyn Deddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 1, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr “Deddf 1967” (*“the 1967 Act”*) yw Deddf Diwygio Lesddaliad 1967(2);

ystyr “Deddf 1993” (*“the 1993 Act”*) yw Deddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(3);

ystyr “y dyddiad cychwyn” (*“the commencement date”*) yw 1 Ionawr 2003; ac

mae cyfeiriadau at adrannau ac atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 ac at Atodlenni iddi.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

---

(1) 2002 p.15. Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru arfer y pwer o dan yr adran hon yngylch Cymru yn unig- *gweler* adran 181(4)(b) o Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002.

(2) 1967 p.88.

(3) 1993 p.28.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar y dyddiad cychwyn**

**2.** Bydd y darpariaethau canlynol yn Neddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002 dod i rym ar y dyddiad cychwyn -

- (a) adrannau 114, 129, 132, 133, 137 a 142;
- (b) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol ac arbedion yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn-
  - (i) adrannau 115 i 120, 125, 127, 128, 130, 131, 134 i 136, 138 i 141, 143 i 147, 160 i 162; a
  - (ii) adran 180 i'r graddau y mae'n berthnasol i'r diddymiadau hynny yn Atodlen 14 a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
- (c) adrannau 74, 78, 80, 84, 92, 110, 122, 151 to 153, 156, 164, 166, 167, 171, 174 ac Atodlen 12, i'r graddau y maent yn rhoi pwer i wneud rheoliadau.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(4).

Dyddiad  
D Elis Thomas  
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

# ATODLEN 1

Erthygl 2(b)(ii)

## DIDDYMIADAU

### RHAN 1

<i>Pennod</i>	<i>Teitl Byr</i>	<i>Cwmpas y Diddymiad</i>
1993 p.28	Deddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993	<p>Yn adran 5 - yn is-adran (1), y geiriau “which is at a low rent or for a particularly long term”, ac yn is-adran (2)(c), y geiriau “at a low rent or for a particularly long term”.</p> <p>Adran 6.</p> <p>Yn adran 7(3), y geiriau “at a low rent”.</p> <p>Adran 8.</p> <p>Adran 8A.</p> <p>Yn adran 10 - is-adrannau (2), (3) a (4A), a yn is-adran (6), y diffiniad o “qualifying tenant”.</p> <p>Yn adran 13 - Yn is-adran (2), is-baragraff (I) o baragraff (b) a'r geiriau sy'n dilyn y paragraff hwnnw, ac yn is-adran (3)(e), y geiriau “the following particulars”, y gair “namely” ac is-baragraffau (ii) a (iii).</p>
1996 p.52	Deddf Tai 1996	<p>Adran 105(3).</p> <p>Adran 111.</p> <p>Yn Atodlen 9, paragraff 3 ac is-baragraffau 5(2) a (3).</p> <p>Yn Atodlen 10, paragraff 4.</p>

## RHAN 2

<i>Pennod</i>	<i>Teitl Byr</i>	<i>Cwmpas y Diddymiad</i>
1993 p.28	Deddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993	<p>Yn adran 39 - yn is-adran (2), paragraff (b) a'r gair "and" o'i flaen, is-adrannau (2A) a (2B), is-adran (3)(c) a (d), ac is-adrannau (4A) a (5).</p> <p>Adran 42(3)(b)(iii) a (iv) a (4).</p> <p>Yn adran 45(5), y geiriau "and (b)".</p> <p>Adran 62(4).</p> <p>Yn adran 94 - Yn is-adrannau (3) a (4), y geiriau "which is at a low rent or for a particularly long term", Yn is-adran (12), y geiriau "which is at a low rent or for a particularly long term" a'r geiriau ", 8 and 8A".</p> <p>Yn Atodlen 13, ym mharagraff 1, y diffiniad o "the valuation date".</p>
1996 p.52	Deddf Tai 1996	<p>Adran 112.</p> <p>Yn Atodlen 9, paragraff 4.</p>

## RHAN 3

<i>Pennod</i>	<i>Teitl Byr</i>	<i>Cwmpas y Diddymiad</i>
1967 p.88	Deddf Diwygio Lesddaliad 1967	<p>Yn adran 1 -      yn is-adran (1), y geiriau “, occupying the house as his residence,” a'r geiriau “, and occupying it as his residence,”, is-adran (2), a      yn is-adran (3)(a) y geiriau “and occupied by”.      yn adran 1AA -      yn is-adran (1)(b), y geiriau “falls within subsection (2) below and”, ac is-adrannau (2) a (4).      yn adran 2 -      yn is-adran (3), y geiriau “and occupied by” a'r geiriau o “and are occupied” hyd at y diwedd, ac yn is-adran (4) y geiriau “or a subletting”.      Yn adran 3(3) y geiriau “, except section 1AA,.”.      Yn adran 6 -      yn is-adran (2), y geiriau “in respect of his occupation of the house”, ac yn is-adran (5) y geiriau “or statutory owners, as the case may be,” a'r geiriau “or them”.      Yn adran 7 -      yn is-adran (1) y geiriau “while occupying it as his residence”, y geiriau “, and occupying the house as his residence” a pharagraff (b) a'r gair “and” o'i flaen, yn is-adran (4), y geiriau “while so occupying the house” a'r geiriau “occupying in right of the tenancy”, ac is-adran (6).      Yn adran 9 -      yn is-adran (1), y geiriau “who reside in the house”,      yn is-adran (1A)(a) y geiriau “and where the tenancy has been extended under this Part of this Act that the tenancy will terminate on the original term date” ac is-adran (1C)(a).      Yn adran 16 -      Is-adran (1)(a), yn is-adran (2), y geiriau “or occupied”, y geiriau “(a) or” a'r geiriau “the freehold”   </p>

		<p>or”,      yn is-adran (3), y geiriau “the freehold or” a’r amod, ac      yn is-adran (4) y geiriau “the freehold or”.      Yn adran 37 -      yn is-adran (4) y geiriau “, except section 1AA,”, ac yn is-adran (5),      y geiriau o’r dechrau hyd at “but”.      Yn Atodlen 3, ym mharagraff 6, is-baragraff (1)(d) ac, yn is-baragraff (2) y geiriau “and (d)”.      Yn Atodlen 4A, ym mharagraff 3(2)(d), y gair “assign”.</p>
1980 p.51	Deddf Tai 1980	Yn Atodlen 21, paragraff 1.
1989 p.42.	Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989	Atodlen 11, paragraff 10.

## ATODLEN 2

Erthygl 2(b)

### DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

#### Rhyddfreiniad torfol gan denantiaid ar fflatiau:

1. Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1993 gan adrannau 115 i 120, 125 a 127 i 128 a'r diddymiadau yn Rhan I o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn cael effaith mewn perthynas â chais am ryddfreiniad torfol -

- (a) y rhoddwyd hysbysiad o dan adran 13 o Ddeddf 1993 mewn perthynas ag ef; neu
- (b) y gwnaed cais am orchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf honno cyn y dyddiad cychwyn mewn perthynas ag ef.

2. Hyd nes y daw adrannau 121 i 124 i rym, mewn achos lle nad oes ond dau denant cymwys o fflatiau a gynhwysir yn yr adeiladau, ni chaiff adran 13(2)(b) o Ddeddf 1993 fel y'i diwygiwyd gan adran 119 ei bodloni oni bydd y ddua denant yn denantiaid sy'n cyfranogi yn ôl y diffiniad o "participating tenants" yn adran 14 o'r Ddeddf honno.

3. Bydd is-baragraff (2A) o baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 1993 a fewnosodwyd gan adran 128, hyd nes y dygir adrannau 121 i 124 i rym, yn cael effaith fel pe baï'r cyfeiriad at aelodau sy'n cyfranogi yn gyfeiriad at denantiaid sy'n cyfranogi yn ôl y diffiniad o "participating tenants" yn adran 14 o'r Ddeddf honno.

#### Prydlesi newydd i denantiaid fflatiau

4. Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1993 gan adrannau 130, 131 a 134 i 136, y diddymiadau o adrannau 5, 7, 8 ac 8A o'r Ddeddf honno yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn a'r diddymiadau yn Rhan 2 o'r Atodlen honno yn cael effaith mewn perthynas â chais am brydles newydd o fflat -

- (a) y rhoddwyd hysbysiad o dan adran 42 o Ddeddf 1993 mewn perthynas ag ef; neu

(b) y gwnaed cais am orchymyn o dan  
adran 50 o'r Ddeddf honno  
cyn y dyddiad cychwyn mewn perthynas ag ef.

**Rhyddfreiniad ac estyn prydles ar gyfer tai ar lesddaliad**

5. Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1967 gan adrannau 138 i 141 ac adrannau 143 i 147 a'r diddymiadau yn Rhan 3 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, yn cael effaith mewn perthynas â chais am ryddfreiniad neu brydles estynedig o dŷ -

- (a) y rhoddwyd hysbysiad o dan adran 8 neu 14 o Ddeddf 1997 mewn perthynas ag ef; neu
  - (b) y gwnaed cais am orchymyn o dan adran 27 o'r Ddeddf honno
- cyn y dyddiad cychwyn mewn perthynas ag ef.

**Rheolwyr a benodwyd gan dribiwnlys prisio lesddaliad**

6. Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Landlord a Thenant 1987<sup>(5)</sup> gan adrannau 160 a 161 yn cael effaith mewn perthynas â chais a wnaed o dan Ran II o Ddeddf Landlord a Thenant 1987 cyn y dyddiad cychwyn.

**Y seiliau dros wneud cais i amrywio prydles**

7. Ni fydd y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Landlord a Thenant 1987 gan adran 162 yn cael effaith mewn perthynas â chais a wnaed o dan adran 35 o Ddeddf Landlord a Thenant 1987 cyn y dyddiad cychwyn.

---

<sup>(5)</sup> 1987 p.31.